Adroddiad Blynyddol y Fforwm Derbyn 2013–2014

Awdurdod Derbyn:

Ysgrifennydd y Fforwm: Mandy Jones – Manylion cyswllt: 01656 642629

Cyfeiriad: Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Sunnyside, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4AR

Aelodaeth a phresenoldeb yn y Fforwm

Enw	Safle	Cyfnod yn gwasanaethu fel Aelod o'r Fforwm *	Aelodaeth fesul categori (gweler y tabl isod)
1. Y Parchedig Ddr P Manghan	**Cadeirydd**	4 blynedd	**S/VA**
2. Mrs S O'Halloran	**Is-gadeirydd**	6 blynedd	**S/CV**
3. Y Cynghorydd H David	Aelod o'r Cabinet	2 flynedd	**LA**
4. Mr M Beauchamp	Rheolwr y Grŵp Busnes, Strategaeth a Pherfformiad	10 mlynedd	**LA**
5. Miss S Rodgers	Prif Swyddog Gwasanaethau Cymorth i Ddysgwyr	5 mlynedd	**LA**
6. Mrs R Dixon	Pennaeth, Ysgol y Ferch o'r Sgêr, Corneli	5 mlynedd	**S/CV**
7. Mr J Tarran	Pennaeth, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru yr Archddiacon John Lewis	1 flwyddyn	**S/VA**

8. Mrs A Carhart	Pennaeth, Ysgol Gyfun Maesteg	3 blynedd	**S/CV**
9. Mr W Bond	Rhiant Lywodraethwr, Ysgol Arbennig Heronsbridge	6 blynedd	**PG**
10. Mr R Sloggett	Rhiant Lywodraethwr, Ysgol Gynradd Penybont	10 mlynedd	**PG**

***Os ydynt wedi gwasanaethu am fwy na 4 blynedd, dylid cynnwys dyddiad eu hailethol hefyd.**

Acronymau ar gyfer Aelodau Craidd		
Enwebwyd yr aelodau gan	**Aelodaeth graidd**	**Acronym**
ALl – unrhyw aelod neu swyddog o'r awdurdod	1 i 5	**LA, LA/SEN, LA/LAC**
Cynrychiolwyr Esgobaeth yr Eglwys yng Nghymru	1 i 3	**CIW**
Cynrychiolwyr Esgobaeth yr Eglwys Gatholig	1 i 3	**RC**
Ysgolion – cymunedol a gwirfoddol a reolir	1 i 3	**S/CV**
Ysgolion – sylfaen	1 i 3	**S/F**
Ysgolion – gwirfoddol a gynorthwyir	1 i 3	**S/VA**
Cynrychiolwyr rhiant lywodraethwyr	1 i 3	**PG**
Cynrychiolwyr y gymuned leol	Hyd at 3	**L/COM**

Dyddiadau'r cyfarfodydd a phresenoldeb

	Dyddiad	Nifer Aelodau'r Fforwm oedd yn bresennol – fesul categori
Cyfarfod cyntaf	**13/03/13**	**7**
Ail gyfarfod	**13/10/13**	**6**
Trydydd cyfarfod	**09/04/14**	**Cyfarfod wedi'i drefnu 12/03/14**

Gofynnir i chi gadarnhau a yw'r awdurdodau derbyn yn ardal y fforwm wedi cwblhau'r ymgynghoriad a phenderfynu ar broses y trefniadau derbyn o fewn yr amserlenni gofynnol dan y Rheoliadau Addysg (Penderfynu ar Drefniadau Derbyn) (Cymru) 2006 [gan gynnwys ymgynghori ar y trefniadau erbyn 1 Mawrth yn ystod y flwyddyn penderfynu, a phenderfynu ar y trefniadau terfynol erbyn 15 Ebrill y flwyddyn honno].

Os oes unrhyw awdurdod derbyn heb lwyddo i fodloni'r amserlenni hyn, nodwch y manylion yma.

Sawl dogfen ymgynghori ydych chi wedi eu gweld gan awdurdodau derbyn (heb gynnwys awdurdodau lleol eraill)?

Cwblhaodd yr holl awdurdodau derbyn ym Mhen-y-bont ar Ogwr yr ymgynghoriad, a phenderfynwyd ar y trefniadau derbyn o fewn yr amserlenni a bennwyd yn y Rheoliadau.

Ni welwyd unrhyw ddogfennau ymgynghori gan awdurdodau derbyn eraill.

Pa drefniadau derbyn a sefydlwyd i ddarparu ar gyfer buddiannau plant sy'n agored i niwed?
A fuont yn llwyddiannus?

Pa drefniadau eraill a nodwyd gennych i gefnogi'r plant hyn?

Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, rhoddir blaenoriaeth i blant sy'n derbyn gofal ar gyfer cael eu derbyn i'r ysgol o'u dewis. Mae'r tîm derbyn yn gweithio'n agos iawn â'r Cydlynydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal i sicrhau cyn lleied o oedi ag y bo modd i blentyn sy'n derbyn gofal gael mynediad at addysg.

Mae'r Gyfarwyddiaeth Plant yn parhau i weithredu protocol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal gan alluogi plentyn i gadw'i le yn yr ysgol, pan fo hynny'n ymarferol, yn dilyn penderfyniad i gymryd y plentyn i dderbyn gofal ar ôl newid lleoliad. Bydd yr Awdurdod Lleol yn darparu cludiant o'r cartref i'r ysgol pan fo Cynllun Gofal y plentyn yn nodi y byddai cadw ei le yn yr ysgol er budd gorau'r plentyn. Mae'r protocol yn helpu i gyfyngu ar nifer yr achosion o newid ysgol / derbyniadau ac yn gweithredu i gynnal dilyniant o ran addysg plentyn.

Mae gan yr awdurdod lleol Banel Grwpiau Agored i Niwed amlasiantaeth, a sefydlwyd beth amser yn ôl, dan gadeiryddiaeth y cydlynydd Addysg Heblaw yn yr Ysgol, sy'n ystyried atgyfeiriadau at wasanaethau arbenigol yn achos disgyblion CA3 a CA4 a allai fod â ffobia am fynd i'r ysgol, neu sy'n dioddef problemau iechyd meddwl ac sydd ag angen amgylchedd cefnogol i'w galluogi i ddychwelyd i ysgol prif ffrwd. Mae'r cyfraddau ailintegreiddio'n uchel iawn, ac mae penaethiaid ysgolion uwchradd yn cefnogi'r rhaglen ac yn ei gwerthfawrogi.

Mae'r broses dderbyn ganolog yn caniatáu mwy o reolaeth a monitro yng nghyd-destun y broses o dderbyn plant sy'n agored i niwed. Plant ag ymddygiad heriol sy'n achosi'r pryder mwyaf, a hwy yw'r rhai mwyaf anodd eu lleoli o'r holl awdurdodau derbyn, yn enwedig pan fo plant yn symud i'r ardal a'r wybodaeth, o bosib, yn brin. Ar hyn o bryd, mae'r Gyfarwyddiaeth yn gweithio ar y cyd â phenaethiaid ysgolion uwchradd ar brotocol i reoli ceisiadau cymhleth i drosglwyddo yn ystod blwyddyn ysgol. Cyflwynir hyn i bob ysgol mewn 'Protocol Drafft' yn ystod Tymor yr Hydref 2014.

Pa mor dda y mae'r gweithdrefnau derbyn yn ystod blwyddyn ysgol y cytunwyd arnynt wedi gweithio?
Faint o blant a dderbyniwyd i bob ysgol o dan y gweithdrefnau?
A ydych chi wedi gweld cynnydd yn y niferoedd ar gyfer derbyniadau yn ystod blwyddyn ysgol, ac os felly pa gamau a nodwyd i ymdrin â'r mater?

Yn ystod blwyddyn academaidd 2013/14, proseswyd 776 o dderbyniadau yn ystod y flwyddyn ysgol gan dîm derbyn canolog yr Awdurdod Lleol. Roedd 542 o geisiadau o'r sector cynradd, a 234 o geisiadau o'r sector uwchradd. Mae hyn yn cynrychioli gostyngiad ar y flwyddyn flaenorol, pan gafodd 929 o geisiadau eu derbyn a'u prosesu yn ystod y flwyddyn ysgol. Mae gan yr Awdurdod Lleol broses gadarn ar waith, a rhoddir ystyriaeth i'r holl geisiadau yn erbyn nifer y derbyniadau i'r ysgol a gyhoeddwyd a'r dull cyfredol o drefnu dosbarthiadau.

Pa faterion derbyn allweddol a nodwyd ar gyfer yr ardal?
Beth ydynt, a sut mae'r fforwm wedi ymdrin â hwy?

Yn ystod 2013/14, rhoddodd y Fforwm ystyriaeth i'r materion canlynol:

- **Polisi derbyn drafft y Cyngor 2015/16:**
  Cymeradwyodd y fforwm y polisi drafft;

- **Dyddiadau Cyffredin:**
  Cymeradwyodd y fforwm y dyddiadau dychwelyd cyffredin / dyddiadau cynnig cyffredin y cytunwyd arnynt gan yr awdurdodau perthnasol;

- **Argymhellion Llywodraeth Cymru:**
  Nododd a chytunodd y Fforwm ag awgrymiadau Llywodraeth Cymru ar gyfer cyhoeddi dogfen y Cyngor, 'Dechrau yn yr Ysgol', yn y dyfodol;

- **Adroddiad Blynyddol:**
  Cymeradwyodd y fforwm yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2012/13;

- **Meini prawf pan fo gormod o geisiadau:**
  Cytunwyd yn unfrydol y bydd y meini prawf, pan fo gormod o geisiadau ar gyfer derbyniadau meithrin a derbyn, yn parhau yr un fath;

- **Trosglwyddiadau o ysgolion cyfrwng Cymraeg i ysgolion cyfrwng Saesneg:**
  Nododd y fforwm fod hyn yn dod yn bryder cynyddol, yn enwedig pan fo'r trosglwyddo'n digwydd yn hwyr yn CA3. Argymhellodd y fforwm fod yr Awdurdod Lleol yn ystyried yr effaith ar yr ysgolion a'r plant;

- **Symudiadau a Reolir:**
  Nododd y fforwm fod y protocol symudiadau a reolir wedi cyfrannu at y gostyngiad yn nifer y gwaharddiadau o ysgolion;

- **Ardaloedd dalgylch ysgol:**
  Derbyniodd y fforwm adroddiad ar yr adolygiad o ardaloedd dalgylch ysgol;

- **Trosglwyddiadau yn ystod blwyddyn ysgol:**
  Derbyniodd y fforwm yr adroddiad, a nodi bod protocol newydd yn cael ei ddatblygu;

- **Derbyniadau ar-lein:**
  Derbyniodd y fforwm y symudiad at dderbyniadau ar-lein, ond gan dderbyn y gallai'r gost fod yn ffactor ataliol.

Pa ddulliau a ddefnyddiwyd gan y Fforwm i ledaenu unrhyw gyngor neu benderfyniad a wnaed?
Rhannwyd ymatebion y Fforwm i gynigion / materion drwy ddulliau cyfathrebu arferol yr Awdurdod Lleol, yn enwedig y rhai hynny sy'n ymwneud â newidiadau i bolisïau.

Y dyddiad y cyhoeddodd y Fforwm gyngor ar Wefan yr Awdurdod Derbyn:

Rhagfyr 2015

http://www1.bridgend.gov.uk/cy/canolfan-y-cyfryngau/cymraeg.aspx

Llofnod: **(Ysgrifennydd y Fforwm)**

Dyddiad: 24 Tachwedd 2014

ATODIAD A: Derbyniadau ac apeliadau Ysgolion

Yn y rownd derbyniadau 2013/14 fe wnaeth y cyngor trin 2,990 o geisiadau derbyn.
Mae dadansoddiad mewn perthynas â phob ysgol yn cael ei ddangos isod:

Ysgol	Nifer o dderbyniadau Cyhoeddi	Nifer o Geisiadau	Nifer o geisiadau Llwyddiannus	Nifer o Apeliadau	Nifer o apeliadau Llwyddiannus
Ysgolion Gynradd					
Ysgol Gynradd Abercerdin	25	19	19	0	0
Ysgol Gynradd Afon-y-Felin	15	9	9	0	0
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru'r Archddiacon John Lewis	30	28	28	0	0
Ysgol Gynradd Betws	30	26	26	0	0
Ysgol Gynradd Blaengarw	24	27	27	0	0
Ysgol Gynradd Bracla	45	39	39	0	0
Ysgol Gynradd Bryncethin	30	41	38	1	1
Ysgol Gynradd Brynmenyn	22	23	23	0	0
Ysgol Fabanod Bryntirion	40	27	27	0	0
Ysgol Plant Iau Bryntirion	40	8	8	0	0
Ysgol Gynradd Caerau	45	51	51	0	0
Ysgol Gynradd Cefn Cribwr	20	11	11	0	0
Ysgol Fabanod Cefn Glas	66	53	53	0	0
Ysgol Gynradd Coety	19	20	19	1	1
Ysgol Gynradd Corneli	46	35	35	0	0
Ysgol Gynradd Llangrallo	12	14	14	0	0
Ysgol Gynradd Croesty	30	31	30	1	1
Ysgol Gynradd Cwmfelin	30	25	25	0	0
Ysgol Gynradd Ffaldau	27	26	26	0	0
Ysgol Gynradd Garth	30	22	22	0	0
Ysgol Gynradd Llidiard	60	39	39	0	0
Ysgol Plant Iau Llangewydd	66	72	72	0	0
Ysgol Gynradd Llangynwyd	11	9	9	0	0

Ysgol	Nifer o dderbyniadau Cyhoeddi	Nifer o Geisiadau	Nifer o geisiadau Llwyddiannus	Nifer o Apeliadau	Nifer o apeliadau Llwyddiannus
Ysgol Gynradd Maes yr Haul	69	70	70	0	0
Ysgol Fabanod Mynydd Cynffig	49	48	48	0	0
Ysgol Plant Iau Mynydd Cynffig	46	52	52	0	0
Ysgol Gynradd Nantyffyllon	40	26	26	0	0
Ysgol Gynradd Nant-y-Moel	30	22	22	0	0
Ysgol Gynradd Newton	33	34	34	0	0
Ysgol Gynradd Notais	60	42	42	0	0
Ysgol Gynradd Cwm Ogwr	53	45	45	0	0
Ysgol Gynradd Hengastell	50	50	50	0	0
Ysgol Gynradd Pen-coed	70	70	70	0	0
Ysgol Gynradd Pen-y-bont	45	45	45	0	0
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Pen-y-fai	**23**	**23**	**23**	**0**	**0**
Ysgol Gynradd y Pîl	30	30	30	0	0
Ysgol Gynradd Plasnewydd	45	45	45	0	0
Ysgol Gynradd Porthcawl	25	25	25	0	0
Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair	30	30	30	0	0
Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair a Sant Padrig	25	32	32	0	0
Ysgol Gynradd Gatholig Sant Robert	22	22	22	0	0
Ysgol Gynradd Ton-du	42	42	42	0	0
Ysgol Gynradd Trelales	30	32	30	2	0
Ysgol Gynradd Tremaen	65	57	57	0	0
Ysgol Gynradd Tynyrheol	10	9	9	0	0
Ysgol Gynradd West Park	55	42	42	0	0
Ysgol Gymraeg Bro Ogwr	54	50	50	0	0
Ysgol Gynradd Gymraeg Cwm Garw	30	22	22	0	0
Ysgol Cynwyd Sant	45	49	49	0	0
Ysgol Y Ferch o'r Sger Corneli	33	32	32	0	0
Cyfanswm		**1701**	**1694**	**0**	**0**

Ysgol	Nifer o dderbyniadau Cyhoeddi	Nifer o Geisiadau	Nifer o geisiadau Llwyddiannus	Nifer o Apeliadau	Nifer o apeliadau Llwyddiannus
Ysgolion Gyfun					
Ysgol Gatholig yr Archesgob McGrath	124	117	117	0	0
Ysgol Gyfun Brynteg	333	208	208	0	0
Ysgol Gyfun Bryntirion	210	163	163	0	0
Coleg Cymunedol y Dderwen	180	103	103	0	0
Ysgol Gyfun Cynffig	276	196	196	0	0
Ysgol Gyfun Maesteg	228	174	174	0	0
Ysgol Gyfun Pen-coed	214	125	125	0	0
Ysgol Gyfun Porthcawl	246	238	238	0	0
Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd	165	82	82	0	0
Cyfanswm		**1289**	**1289**	**0**	**0**